O'r amser hwnnw y dechreuodd Iesu bregethu'r genadwri hon: "Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos."
(Mathew 4:17)

Dyma gofnodi neges yr Arglwydd Iesu wrth iddo ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus. Oherwydd fod teyrnas Dduw wedi dod yn agos ynddo Fe, mae'n galw ar bobl i edifarhau.

Gorchymyn

Y peth cyntaf i'w nodi ynglŷn â neges Iesu, yw fod edifeirwch yn orchymyn gan Dduw. Dyw'r Arglwydd ddim yn ei gyflwyno fel opsiwn 'cymerwch a fynnoch' ger ein bron, ond fel gwŷs awdurdodol o'r nef. Ac mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn ryn ni'n ei ddarllen mewn rhannau eraill o'r Ysgrythurau:
"Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: 'Edifarhewch, a throwch oddi wrth eich eilunod ac oddi wrth eich holl ffieidd-dra.'" (Esec.14.6)
"Edifarhewch, ynteu, a throwch at Dduw, er mwyn dileu eich pechodau." (Act. 3:19)
"ond yn awr y mae'n [Duw] gorchymyn i bawb ym mhob man edifarhau," (Act.17:30)

Newid Meddwl

Dyma yw ystyr y gair Groeg 'metanoia'. Mae'n golygu:

Newid meddwl ynglŷn â phechod.
Mae'n golygu derbyn diffiniad Duw o'r hyn sydd yn bechod. Mae gan lawer o bobl eu syniadau eu hunain o bechod, ond gan Dduw mae'r diffiniad terfynol ac awdurdodol. Os edrychwn ar y Deg Gorchymyn fe welwn fod methiant i garu Duw â'n holl galon ac â'n holl enaid– trwy addoli duwiau eraill, trwy dorri'r Sabath, trwy gymryd enw'r Arglwydd yn ofer, trwy beidio ag anrhydeddu rhieni – yn bechod. Yna fe welwn fod methiant i garu cymydog – trwy ei gasáu a'i ladd, trwy odinebu yn y galon neu mewn gwirionedd, trwy ladrata, trwy ddweud celwydd neu drwy chwennych ei eiddo – yn bechod.

Mae nifer o bethau sydd yn dderbyniol i'n cymdeithas ni heddiw yn cael eu galw'n bechod yng Ngair Duw.

Newid meddwl ynglŷn â phechod personol.
Un peth yw gweld pechod cyffredinol yn y byd, peth arall yw gweld ein pechod ein hunain yn benodol. Dyma ddigwyddodd gyda'r brenin Dafydd wrth i Nathan

adrodd stori ffug am ddyn cyfoethog yn dwyn unig oen ei gymydog tlawd. Roedd Dafydd yn ffyrnig ac yn awyddus iawn i gosbi'r dyn, a dywedodd Nathan wrtho mai ef oedd y dyn hwnnw, oherwydd iddo odinebu gyda gwraig Ureia'r Hethiad a threfnu i hwnnw gael ei ladd mewn brwydr. Wrth dderbyn gair Duw trwy Nathan, dyma Dafydd yn cyffesu: "**yr wyf wedi pechu yn erbyn yr Arglwydd."** (2 Samuel 12:13) Mae hyn yn cael ei adleisio yn ei Salm o edifeirwch: **"Oherwydd gwn am fy nhroseddau, ac y mae fy mhechod yn wastad gyda mi."** (Salm 51.3).

Newid meddwl ynglŷn â mwynhau pechod.

Nid rhyw gyffes oer yn unig yw edifeirwch; mae'n golygu profi tristwch dwfn wrth feddwl am ein pechod. Mae'n cynnwys tristwch oherwydd i ni wneud drwg i gymydog, efallai. Mae'n golygu dymuniad i droi y cloc yn ôl, fel petai. Ond, yn arbennig, mae edifeirwch yn golygu tristwch am ein bod wedi tramgwyddo Duw, ein Creawdwr a'n Cynhaliwr caredig. Term yr apostol Paul am hyn oedd **'duwiol dristwch'** (2 Cor.7:10 BWM). Yn dilyn y tristwch yma, mae ffieiddio pechod hefyd. Mae hyn yn golygu ei adnabod a'i weld am yr hyn ydyw. Dyma ddisgrifiad Dafydd ohono yn Salm 51: **Beiau; pechod (aflan); drygioni; anufudd-dod.** Dyw Dafydd ddim yn petruso i alw pechod yn bechod, ac mae hynny'n dangos ei ddymuniad i'w bellhau ei hun oddi wrtho, er mwyn nesáu at Dduw.

Teyrnas Dduw

Mae clywed Iesu'n dweud bod y deyrnas yn agos yn gysur ac yn anogaeth mawr i'n harwain i edifeirwch. Mae rheswm gobeithiol dros edifarhau. I mi, mae'n ddarlun o'r deyrnas fel tŷ golau wrth deithio yn y tywyllwch.

Pam mae edifeirwch mor bwysig ac mor hanfodol i bob un ohonom? Oherwydd dyma'r llwybr sydd yn ein harwain at iachawdwriaeth: **"edifeirwch sydd yn arwain i iachawdwriaeth."** (2 Cor.7:10). Pan fyddwn yn ceisio cyrraedd rhyw fan, mae'n rhaid dilyn ffordd arbennig.

Er mwyn croesi o Sir Gaernarfon i Sir Fôn mae'n rhaid dod at bont. Ond er mwyn cyrraedd y bont mae'n rhaid dilyn y ffordd sy'n arwain ati. Iesu Grist yw'r bont at Dduw, ac er mwyn cyrraedd Iesu Grist mae angen cymryd llwybr ffydd ac edifeirwch. Nid bod ein hedifeirwch na'n ffydd yn berffaith, ond rhaid i ni brofi rhywfaint ohono cyn y down i alw ar y Gwaredwr am ei ras a'i faddeuant a'i feddyginiaeth yn ein bywyd.

Felly, trwy edifeirwch (a ffydd), fe ddown at Grist, sydd yn ateb problem dwfn ein pechod. Pan ddown at Grist, fe welwn fod drws Teyrnas Nefoedd ar agor led y pen ar ein cyfer !